Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

## CYFARFOD PWYLLGOR GWAITH Y GANGEN

**Dyddiad:** Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2025

**Amser:** 12:30-13:15

**Lleoliad:** Ystafell Fideogynadledda / Hybrid

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd y Gangen)
Natasha Asghar AS
Delyth Jewell AS
Rhianon Passmore AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Siân Stoodley, Swyddfa Breifat y Llywydd

## AGENDA

### 1. CROESO / YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau gan:

- Alun Davies AS
- Sam Rowlands AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-25-03 (**DOGFEN 1**)

**Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.**

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

4. **<u>Adborth ar Gyfarfodydd, Ymweliadau, Digwyddiadau a Chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

- *61ain Cynhadledd Ranbarthol Canada*
  *Dinas Quebec*
  *20-23 Gorffennaf* ***(DOG 2)***

  Trafododd David Rees AS, Is-lywydd y Gangen, ei brofiadau wrth gynrychioli Cangen y Senedd yng Nghynhadledd Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghanada. Dywedodd fod y gynhadledd wedi cael ei threfnu'n dda iawn, ac roedd yn gyfle ardderchog i arddangos gwaith y Senedd. Mynegwyd llawer o ddiddordeb yn y datblygiadau diweddaraf sydd i'w gweld yng Nghymru, ac roedd y gynhadledd yn llwyfan ar gyfer meithrin cysylltiadau newydd a chryfhau'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng y Senedd a sawl deddfwrfa yng Nghanada.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *St Helena*
  *21 Awst – 8 Medi*

  Fel y rhagwelwyd, roedd y ffaith y cafodd y genhadaeth hon ei threfnu ar fyr rybudd wedi golygu nad oedd modd i'r Gangen enwebu unrhyw un ar ei chyfer. Mae'r adroddiad cenhadaeth ar gael yma.

- *Cyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *22 Medi a 17 Tachwedd*

  Roedd y trafodaethau a gafwyd yn y ddau gyfarfod diweddaraf yn cynnwys:

*- Adborth ar Gynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad a'r etholiadau yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Barbados.*

*- Y cais gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i rannu'r arolwg ynghylch gofynion gofal plant mewn cynadleddau at ddibenion hwyluso presenoldeb.*

*- diweddariad gan Gangen Gogledd Iwerddon o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar Gynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad a gaiff ei chynnal yno cyn bo hir*

- *Ymweliad gan Lawrence Xu-Nan AS (Senedd Seland Newydd)*
  *1-2 Hydref*

  Bu'r Gangen yn falch o hwyluso rhaglen ar gyfer Lawrence Xu-Nan AS. Roedd Llywydd a Chadeirydd y Gangen wedi cwrdd ag ef eisoes fel rhan o gyfarfod dwyochrog a gynhaliwyd â Dirprwyaeth Seneddol o Seland Newydd.

  Roedd rhaglen Lawrence Xu-Nan yn cynnwys cyfarfod â Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y *Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol*, ynghylch Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â chyfarfod â thîm Clercio'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Cynhaliodd y Llywydd a Luke Fletcher ginio ar gyfer Lawrence hefyd.

- *68ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *Barbados*
  *6-12 Hydref (**DOGFEN 3**)*

  Roedd Natasha Asghar AS ac Alun Davies AS yn bresennol yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Barbados ym mis Hydref. Cafodd Natasha Asghar AS ei gwahodd i siarad am ei phrofiadau, gan gynnwys cymryd rhan yng Nghynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad, cadeirio gweithdy, a chynrychioli'r Senedd ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.
  Nododd y Cadeirydd fod y Gangen yn diolch i Natasha Asghar AS ac Alun Davies AS am eu hadroddiad.

- *Ymweliad gan Uchel Gomisiynydd Malta*
  *15 Hydref*

  Daeth yr Athro Stephen Montefort, Uchel Gomisiynydd Malta i'r DU, ar ymweliad byr â'r Senedd, lle cafodd gyflwyniad ar ddatblygiadau yn y Senedd, yn ogystal â chyfarfod â'r Dirprwy Lywydd.

- *Cyfarfod a Digwyddiad Rhwydwaith LHDT+ BIMR*
  *24 Tachwedd*
  *San Steffan*

  Gwasanaethodd Adam Price AS fel Cadeirydd dros dro yn nigwyddiad rhwydweithio cyntaf rhwydwaith LHDT+ BIMR (ers i'r rhwydwaith gael ei lansio yn y Senedd ym mis Mehefin). Roedd Hannah Blythyn AS hefyd yn bresennol ar-lein yng nghyfarfod y pwyllgor llywio.

  Cynhaliodd y fforwm drafodaethau bwrdd crwn ar y materion a ganlyn:

  *– lefel gwelededd pobl LHDT mewn gwleidyddiaeth ar draws rhanbarth BIM; a'r*
  *– sefyllfa bresennol yn y Gymanwlad o ran cydraddoldeb LHDT+, gan archwilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, yn ogystal â'r heriau a wynebir.*

  Bydd Adam Price AS yn drafftio erthygl ar y fforwm, a fydd yn cael ei rhannu'n ehangach.

- *Cynhadledd "Rôl Seneddau wrth Lywio Dyfodol Cyfrifol ym maes Deallusrwydd Artiffisial"*
  *Kuala Lumpur, Malaysia*
  *28-30 Tachwedd*

  Roedd y Gangen yn falch o gael cynnig dau le yn y gynhadledd hir-ddisgwyliedig hon. Yn sgil y diddordeb sylweddol a fynegwyd gan Aelodau, dewiswyd Adam Price AS a Hannah Blythyn AS i gynrychioli'r Senedd.

  Bydd adroddiad yn cael ei lunio maes o law, a'r gobaith yw y bydd cyfle i rannu gwersi o'r gynhadledd yn ehangach ar draws y Senedd a'r Comisiwn.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, Ymweliadau, Digwyddiadau a Chynadleddau arfaethedig**

**2025**

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *Ynysoedd Falkland*
  *3-16 Rhagfyr*

  Roedd Alun Davies AS ar ei ffordd i Ynysoedd Falkland ar gyfer y genhadaeth hon, a oedd wedi cael ei haildrefnu. Cafodd Alun Davies AS ei ddewis yn Bennaeth y Genhadaeth hon. Dymunodd y Gangen yn dda iddo, gan nodi ei bod yn edrych ymlaen at glywed am ei brofiadau.

**2026**

- *Cyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Rhithwir*
  *26 Ionawr*

  Roedd cyfarfod nesaf Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad wedi'i gadarnhau ar gyfer y dyddiad hwn, a bydd papurau yn cael eu dosbarthu yn y flwyddyn newydd.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Belfast, Gogledd Iwerddon*
  *8-10 Chwefror*

  Mae’r gwahoddiad swyddogol ar gyfer Cynhadledd Ranbarthol nesaf Seneddwragedd y Gymanwlad, a gynhelir yn ninas Belfast gan Gangen Gogledd Iwerddon o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, wedi'i anfon. Bydd cynhadledd eleni yn cael ei chynnal yn gynharach na’r arfer er mwyn ceisio sicrhau bod lle ar gael i Aelodau o nifer o ddeddfwrfeydd BIMR a fydd yn cynnal etholiadau yn 2026, gan gynnwys ein Senedd ni.

  Cafodd y Senedd ei gwahodd i anfon tri Aelod, a bydd Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn cysylltu ag Aelodau a Grwpiau’r Pleidiau i ddethol ein dirprwyaeth.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer ein cyfranogiad, nodwyd y bydd angen ystyried y trafodion Cyfnod 3 a gaiff eu cynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Chwefror.

- Fforwm Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau BIMR (ac Uwchgynhadledd Anabledd)Caeredin, yr Alban20-21 ChwefrorBydd Mark Isherwood AS, fel Hyrwyddwr Anabledd y Senedd, yn bresennol ac yn cynrychioli'r Gangen yn y fforwm hwn, a gaiff ei gynnal gan Jeremy Balfour AS (Cadeirydd rhwydwaith Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau BIMR) a Senedd yr Alban.

<u>**Y SEITHFED SENEDD**</u>

- *55fed Cynhadledd BIMR*
  *Gibraltar*
  *15-18 Mehefin (i'w gadarnhau)*

  Roedd Cangen Gibraltar wedi cadarnhau'n garedig ei chynnig i gynnal Cynhadledd Ranbarthol BIM y flwyddyn nesaf.

  Bydd y Gangen yn ystyried ei dirprwyaeth, yn dilyn etholiad y Senedd a sefydlu'r Pwyllgor Gwaith newydd.

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)*
  *Sydney, De Cymru Newydd*
  *1-5 Gorffennaf*

  Ar ôl cynnal Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad y llynedd, mae Senedd De Cymru Newydd bellach wedi cadarnhau y bydd yn cynnal Senedd Ieuenctid y Gymanwlad 2026 yn Sydney.

  Roedd yr Aelodau'n awyddus i geisio sicrhau lleoedd i'r Senedd gael ei chynrychioli unwaith eto yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, a bydd yr ysgrifenyddiaeth yn gweithio gyda thîm Senedd Ieuenctid Cymru i hwyluso hyn.

  Yn sgil amseriad y gynhadledd, nododd y Cadeirydd ei bod yn debygol y bydd angen i'r Gangen ddewis ein cynrychiolydd / cynrychiolwyr cyn diddymu'r Senedd hon.

- *69ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *Cape Town, De Affrica*
  *5-11 Hydref (i'w gadarnhau)*

Yn dilyn cadarnhad yn y Cynulliad Cyffredinol diweddar, nodwyd y bydd 69ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn cael ei chynnal yn ninas Cape Town yn Ne Affrica y flwyddyn nesaf.
Trafododd y Cadeirydd y berthynas gadarnhaol sydd wedi datblygu rhwng y Senedd a Senedd Daleithiol y Western Cape (WCPP), a fydd yn chwarae rhan weithredol yn y broses o drefnu'r gynhadledd. Cadarnhaodd Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i fanteisio ar y cyfle i ddirprwyaeth o'r Senedd ymgysylltu â'r Senedd Daleithiol, a hynny fel rhan o'i chyfranogiad yn y gynhadledd seneddol ehangach.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

- *Adolygiad o Reolau Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.*

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd fod cyfansoddiad ein cangen yn nodi y bydd Rheolau Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cael eu hadolygu ar ddiwedd tymor pob Senedd.

Felly, bydd cyfarfod pwrpasol yn cael ei drefnu i drafod unrhyw newidiadau arfaethedig ym mis Chwefror 2026.

Bydd fersiwn ddiwygiedig o Reolau'r Gangen yn cael eu cadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gangen, ac yn dod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

- Nododd yr Aelodau Adroddiad y Gynhadledd BIMR a gynhaliwyd yn y Senedd, a gellir darllen yr adroddiad **yma** *(cynnwys linc)*

.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**
- Chwefror (i'w gadarnhau)
- Mawrth/Ebrill (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

**DIWEDD**